# Diweddariad Pobl a Llafur

*Gwybodaeth yn gywir am 14:40pm 23.03.2020*

Mae datblygiad sydyn y canllawiau'n ymwneud ag ymateb y Llywodraeth i Covid-19 yn golygu nad yw llawer o ganllawiau'r Llywodraeth yn ddeddfwriaeth ar hyn o bryd (ond fe fyddant yn fuan) ac maent yn parhau i gael eu hystyried yn gyngor. Ar hyn o bryd, mae'n bwysig deall bod dilyn y cyngor hwn yn cynrychioli arfer dda ar gyfer eich busnes, timoedd ac er budd y gymuned ehangach:

- Ymlacio rhywfaint o ran nodiadau salwch ar gyfer y rhai sy'n hunan-ynysu (ar eu cyfer eu hunain)
- Parhau i dalu tâl salwch y cwmni, os yn berthnasol
- Cynnig opsiynau gwahanol ar gyfer talu'r rhai sydd yn methu â dychwelyd o wledydd tramor e.e. ymestyn nifer y dyddiau gwyliau, talu (yn llawn/rhannol) ond cynnig cyfle i wneud yr oriau pan fyddant yn dychwelyd

Mae'n gyfnod ansicr i fusnesau ac unigolion fel ei gilydd, felly bydd datblygu ffyddlondeb trwy ymddangos yn 'deg' yn fuddiol yn y tymor hir.

## Sut a phryd y bydd gweithwyr yn cael eu talu?

| Mae'r gweithiwr... | Absenoldeb salwch | Tâl Salwch Statudol | Tâl salwch y cwmni *(o syn berthnasol)* | Opsiwn o weithio o adref | Tâl arferol | Gwyliau di-dâl |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Yn dioddef o Covid-19 | Y | Y* | Y** | N | N | Amh |
| Yn hunan-ynysu am 14 diwrnod yn unol â chyngor meddygol | Y | Y* | Y** | Y | N | Amh |
| Yn hunan-ynysu o ddewis heb gyngor meddygol | N | N | Y | Y | N | N† |
| Yn sâl, ond nid gyda Covid-19 | Y | Y | Y | N | N | Amh |
| Yn cael ei ofyn i hunan-ynysu gan ei gyflogwr, nid gan feddyg | N | N | N | Y | Y | Amh |
| Yn absennol oherwydd bod yr ysgol neu'r feithrinfa ar gau | N | N | N | Y | Y*** | Y |
| Yn iach ond mae'r gweithle wedi cau oherwydd Covid-19 | N | N | N | Y | Y†† | N |

* O'r diwrnod cyntaf

** Gallai fod yn gymwys i dderbyn tâl ychwanegol dan unrhyw gynllun tâl salwch gan y cwmni, argymhellir y dylid talu hwn o'r diwrnod cyntaf

*** Os oes modd cwblhau'r dyletswyddau o bell

† Rhoddir gwyliau di-dâl yn ôl disgresiwn. Cyfeiriwch at y polisi disgyblu i weld a oes angen cymryd camau disgyblu

†† Dim ond os yn berthnasol, bydd gweithwyr yn cael eu talu hyd yn oed os nad yw'n bosibl

*Paratowyd gan Kite Consulting*